**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (FFORDD YR A485, ALLTWALIS) (GOSOD TERFYN CYFLYMDER DROS DRO O 10 M.Y.A.) 2026**

---

**YN GYMAINT Â BOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), sef yr Awdurdod Priffyrdd am y darn hwnnw o ffordd yr A485 Alltwalis o bwynt 730 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Ffordd yr U5503 Coedllwydion am bellter o tua 250 metr i gyfeiriad de-orllewinol, yn fodlon:

a) bod y gwaith adeiladu sy'n cael ei ymgymryd gan y Cyngor ar neu gerllaw ffordd yr A485 yn Alltwalis yn parhau; ac

b) ei fod yn angenrheidiol bod y cyfyngiad cyflymder dros dro a gyflwynwyd gan yr Hysbysiad Brys a gyhoeddwyd ar yr Wythfed dydd o Ionawr Ddwy Fil a Dau Ddeg Chwech ac a wnaed o dan Adran 14(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn parhau mewn grym,

**YN AWR**, gan hynny, mae'r Cyngor, gan ymarfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddo Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Gweithdrefn Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1992 a holl bwerau galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ni chaiff unrhyw berson achosi i unrhyw gerbyd deithio ar gyflymder o fwy na 10 M.Y.A. ar hyd y darn hwnnw o Ffordd Dosbarth A (Ffordd yr A485, Alltwalis) o bwynt 730 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Ffordd yr U5503 Coedllwydion am bellter o tua 250 metr i gyfeiriad de-orllewinol dros gyfnod y Gorchymyn hwn.

2. Bydd “Gorchymyn Sir Caerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder o 30 MYA) 2023” a “Gorchymyn Sir Caerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder o 40 M.Y.A) 2024”, drwy hyn, yn cael eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darn ffordd yr effeithir arno ac yn ystod cyfnod y Gorchymyn hwn yn unig.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar yr Wythfed Dydd ar Hugain o Ionawr Ddwy Fil a Dau Ddeg Chwech a elwir yn “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Ffordd yr A485, Alltwalis) (Gosod Terfyn Cyflymder Dros Dro o 10 M.Y.A.) 2026” a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o hyd at ddeunaw mis.

4. Ni fydd y Gorchymyn yn berthnasol i:

   a) gerbydau a ddefnyddir gan y Frigâd Dân, yr Ambiwlans neu'r Heddlu os byddai cydymffurfio â'r cyfyngiad yn debygol o rwystro'r diben y mae'r cerbyd hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer ar yr achlysur hwnnw, ar yr amod nad yw'r amodau sy'n bodoli ar y safle ar unrhyw adeg yn ei gwneud yn anniogel neu'n amhosibl i gerbydau o'r fath gael eu heithrio;

   b) unrhyw beth a wneir ar gyfarwyddyd, neu gyda chaniatâd, cwnstabl heddlu yn ei lifrai neu swyddog gorfodi sifil; neu

   c) unrhyw ofynion mynediad rhesymol gan drigolion lleol neu gerddwyr.

Rhoddwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

ar y ddogfen hon

ar y 26ain dydd o Ionawr 2026

ym mhresenoldeb:

..........................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**